**EITEM AR YR AGENDA: 15**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

**SEREMONI GWOBRAU GWASANAETH HIR A GWOBRWYO'R GYMUNED AR Y CYD**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 I gynnig cyfuno seremonïau Gwobrau Gwasanaeth Hir a Gwobrwyo'r Gymuned yn 2011.

## Cyflwyniad

2 Oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r angen i wneud arbedion arwyddocaol ym mhob ardal, ystyriwyd hi'n amhriodol cynnal Dawns Gwobrwyo'r Gymuned Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn 2011. Fodd bynnag, dymunai'r Prif Swyddog Tân weld ymdrech eithriadol a chyflawniad tîm nodedig yn cael ei gydnabod mewn modd priodol, ond wrth ystyried y sefyllfa economaidd hefyd.

3 Yn ychwanegol i'r Ddawns Gwobrwyo, mae'r rhai sydd wedi cyflawni 20 mlynedd o Wasanaeth Hir ac Ymddygiad Clodwiw, neu mewn achos staff cefnogi, 20 mlynedd o wasanaeth ffyddlon yn haeddu cydnabyddiaeth am eu cyflawniadau mewn digwyddiad addas.

4 Un opsiwn fyddai cyfuno'r ddau ddigwyddiad i ddod yn Seremoni Gwasanaeth Hir a Gwobrau'r Gymuned, a'i fod yn cymryd lle ar safle'r Gwasanaeth Tân ac Achub yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl. Mae'r orsaf yn gallu dal hyd at 180 o bobl.

5 Byddai mis Medi yn amser addas i gynnal y seremoni gan fod y nosweithiau'n dal yn olau. Mae'r seremonïau diwethaf wedi cael eu cynnal yn hwyr yn y flwyddyn ac mae'r tywydd drwg wedi eu heffeithio. Mae'r Ddawns Gwobrwyo'r Gymuned fel arfer yn cael ei chynnal hwyr ym mis Chwefror neu gychwyn mis Mawrth.

6 Byddai'r dyddiad yma'n caniatáu digon o amser i drefnu'r digwyddiad a bydd ar ôl gwyliau'r haf felly mae'n llai tebygol i'r derbynwyr fod i ffwrdd o'r ardal.

7 Awgrymwyd hefyd fod y gwobrau crisial i staff cefnogi'n cael eu diweddaru'n wobr gwydr safonol hefyd.

8 Mae'r tabl canlynol yn dangos cost arfaethedig y digwyddiad ar y cyd. Mae'n seiliedig ar y dybiaeth byddai'r holl dderbynwyr yn mynychu a'u bod yn dod â thri gwestai gyda nhw. Mae ffigyrau blaenorol wedi dangos, dros y 3 mlynedd diwethaf fod 30% o'r derbynwyr wedi dewis peidio mynychu'r digwyddiad.

**Cost y digwyddiad**

9 Cyfanswm cynnal y ddau ddigwyddiad yn 2010 oedd £9,800.

**Lleoliad** Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl
**Amser** Wythnos yn cychwyn 12fed Medi 2011
**Arlwyo** Cwmni arlwyo allanol

| Eitem | Pris pob uned | Nifer sydd ei angen | Cyfanswm y gost |
|---|---|---|---|
| Bwyd a diod | £6 | 179 | £1074 |
| Gwobrau – Gwasanaeth Ffyddlon a Gwobrau Cymunedol | £40 | 15 | £600 |
| Gweinyddiaeth a gosod yr ystafell | - | - | £510 |
| Tynnwr lluniau | £400 | 1 | £400 |
| Adloniant - Band y Gwasanaeth Tân ac Achub | Dim cost | - | £0.00 |
| | | Cyfanswm | £2584 |

**Argymhelliad**

10 Gofynnir i'r Aelodau gefnogi'r bwriad i uno'r ddau digwyddiad, fel â gynigir uchod, i'w gynnal yng Ngorsaf Dân Gymunedol y Rhyl ym mis Medi 2011.